# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Dewis Ymarferydd Meddygol) Diwygio (Cymru) 2000

**Y Cefndir**
Mae Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Dewis Ymarferydd Meddygol) 1998 sy’n gymwys i Gymru a Lloegr yn cynnwys darpariaethau ynghylch hawl personau i ddewis y meddyg y maent am gael gwasanaethau meddygol ganddo neu ganddi.

Mae Rheoliadau 1998 wedi’u diwygio ar gyfer Lloegr i gynnwys darpariaeth ar gyfer cymryd i ystyriaeth, wrth ddyrannu cleifion i feddyg, ddigwyddiadau blaenorol lle bu’r cleifion yn dreisgar tuag at eu meddyg. Bydd hyn wedyn yn fodd i’r claf gael ei ddyrannu i feddyg sydd â’r cyfleusterau mwyaf priodol.

Mae’r rheoliadau presennol yn mewnosod darpariaeth yn Rheoliadau 1998 fel y bydd y diwygiadau sydd wedi’u gwneud ar gyfer Lloegr yn gymwys bellach yng Nghymru hefyd.

Gan mai uniaith Saesneg yw Rheoliadau 1998, Saesneg yw’r testun sy’n cael ei fewnosod (sydd i’w weld yn Rheoliad 2 o’r Rheoliadau hyn).

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**
Wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o’r Rheoliadau hyn, dywedodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor fod y paragraff terfynol yn anodd i’w ddilyn. Awgrymwyd diwygio’r geiriad ac mae hynny wedi’i wneud.

**Dod i Rym**
Dylai’r dyddiad gael ei fewnosod ar frig yr offeryn ac yn Rheoliad 1(1) yn y copi a gyflwynwyd

i’r Pwyllgor.

**J H Turnbull**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-047
10 Mai 2000